Adroddiad i'r	Pwyllgor Cynllunio
Dyddiad y cyfarfod	24 Mai 2023
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Win-Mullen James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio
Awdur yr adroddiad	Karsten Brußk, Uwch Swyddog Cynllunio
Teitl	Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar newidiadau wedi'u targedu i Bennod 6 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (LlC), sy'n ceisio barn ar newidiadau polisi drafft i Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) ynglŷn â budd net i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gwahoddir Cyngor Sir Ddinbych i gyflwyno eu barn ar y newidiadau polisi arfaethedig, ac felly, mae angen penderfyniad mewn perthynas â chyflwyno'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad sydd ynghlwm, gweler Atodiad 1.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Cynllunio'n cymeradwyo cyflwyno ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad i LlC erbyn 31 Mai 2023.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae LlC ar hyn o bryd yn ymgynghori ar newidiadau polisi drafft i PCC ynglŷn â budd net i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau; gyda newidiadau canlyniadol i'r polisi ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, coed a choedwigoedd, a seilwaith gwyrdd. Gwahoddir ymatebion erbyn 31 Mai 2023. Mae'r dogfennau a'r ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan LlC.

4.2. Mae'r newidiadau arfaethedig i Bennod 6 PCC yn seiliedig ar yr amcan i ddiogelu, cynnal a gwella bioamrywiaeth yn ogystal â chynyddu cydnerthedd ecosystemau. Cydnabyddir pwysigrwydd a rôl Cynllunio drwy gynnwys 'Canlyniad Unigryw a Naturiol Dymunol' newydd yn y testun rhagarweiniol ym Mhennod 6 "*…caiff cynigion datblygu eu siapio'n uniongyrchol gan yr egwyddor mai'r opsiwn mwyaf cost effeithiol a chadarn er lles bioamrywiaeth yw cadw a gwella cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bod eisoes, gan ystyried manteision agwedd ataliol…" (gweler y testun rhagarweiniol drafft i Bennod 6).*

4.3. Mae paragraff drafft 6.4.3 yn y PCC yn amlinellu'r gofynion canlynol ar gyfer strategaethau, polisïau a chynigion cynlluniau datblygu y mae'n rhaid eu hadlewyrchu yng Nghynllun Datblygu Lleol newydd y Cyngor. Er enghraifft:

- *"helpu i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau;*
- *sicrhau bod gweithredu yng Nghymru'n cyfrannu at gyflawni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol ar gyfer bioamrywiaeth a chynefinoedd, gan gynnwys y targedau diweddaraf;*
- *sicrhau bod safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n briodol a bod eu rôl yn ganolog i'r rhwydweithiau ecolegol cydnerth a ddiogelir;*
- *datblygu a gwella cydnerthedd ecosystemau a diogelu rhwydweithiau ecolegol cydnerth trwy wella eu hamrywiaeth, eu cyflwr, eu maint a'u cysylltedd; a*
- *mae'n rhaid i gynlluniau datblygu gynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf os bydd awdurdod lleol yn penderfynu peidio â dangos dynodiadau anstatudol ar fap cynigion neu gyfyngiadau."* (Gweler paragraff drafft / ychwanegol 6.4.20)

4.4. Mae paragraff drafft 6.4.21 yn y PCC yn amlinellu dull graddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth, datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth a darparu buddion net ar gyfer bioamrywiaeth. Mae LlC yn egluro'n glir *"os nad oes cynnig i wella bioamrywiaeth fel rhan o'r cais, rhoddir pwysoliad arwyddocaol i hynny, ac oni cheir ystyriaethau perthnasol arwyddocaol eraill sy'n awgrymu fel arall, bydd angen gwrthod caniatâd…"*

4.5. Bydd y geiriad polisi cenedlaethol mewn perthynas â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hefyd yn cael ei gryfhau. *"Ceir rhagdybiaeth yn erbyn*

datblygiad mewn SoDdGA a dylid adlewyrchu'r rhagdybiaeth hon mewn ffordd briodol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu." (Gweler paragraff drafft 6.4.17)

4.6. Oni bai am y gofyniad i ddiogelu coed, perthi, grwpiau o goed ac ardaloedd o goetir, mae polisi cenedlaethol yn rhyfeddol o eglur o ran gwarchod, gwaredu neu unrhyw weithredoedd o ran torri rheolau Cynllunio: *"Lle ceir coed, coetir a pherthi, dylai ceisiadau cynllunio nodi eu bod yn cael eu cadw. Dylid osgoi difrodi coed, coetir a pherthi hefyd wrth ddarparu gwasanaethau i safle'r cais a dylid ystyried hynny fel rhan o'r datblygiad a gynigir. Ni chaniateir cael gwared ar goed, coetir a pherthi yn barhaol oni byddai hynny'n sicrhau buddiannau cyhoeddus arwyddocaol a chlir. (…) Lle ceir gwared ar goed unigol neu grwpiau o goed fel rhan o gynllun arfaethedig, bydd gofyn i ddatblygwr blannu coed yn eu lle (gan adlewyrchu maint yr hyn a gollwyd a'r cymysgedd o rywogaethau a gollwyd). Rhaid i hyn ddigwydd ar y safle a rhaid plannu o leiaf 3 coeden o fath tebyg yn lle pob 1 goeden a gollir."* (Gweler paragraff drafft / ychwanegol 6.4.25)

4.7. Mae PCC, Adran 6.2 drafft yn amlinellu'r polisi cenedlaethol ar Seilwaith Gwyrdd; er enghraifft, cryfhau perthnasedd a phwysigrwydd Seilwaith Gwyrdd mewn penderfyniadau am Reoli Datblygiad:

- Mae'n rhaid i ymgeiswyr baratoi datganiad seilwaith gwyrdd a'i ymgorffori fel rhan o Ddatganiad Dylunio a Mynediad; er mwyn dangos sut mae'r cynnig cynllunio'n mynd i'r afael â blaenoriaethau lles, natur ac argyfyngau hinsawdd. (Gweler paragraff drafft / ychwanegol 6.2.5)

4.8. Mae'r newidiadau arfaethedig i Bennod 6 PCC yn golygu bod angen gwneud newidiadau i baragraff 5.14.37 *("Os oes cynigion mwynau o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, AGA posibl neu ar safleoedd a gafodd eu categoreiddio'n ardaloedd o'r fath, neu mewn ardaloedd a ddynodwyd yn ACA, sydd wedi gwneud cais i fod yn ACA, neu y bwriedir eu dynodi felly, neu mewn safleoedd Ramsar, neu os oes cynigion sy'n debygol o effeithio ar ardaloedd o'r fath, ni ddylent gael eu cynnal ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol.")* a pharagraffau 6.6.1, 6.6.5 - 6 (Dŵr a Risg Llifogydd: cydnabyddiaeth gyffredinol o atebion sy'n seiliedig ar natur a manteision cymryd camau cydategol i fynd i'r afael â llygredd ac adfer cynefinoedd afonydd).

4.9. Mae newid arfaethedig i baragraff 6.3.10 hefyd - Parciau Cenedlaethol/AHNE - at ddibenion cywirdeb: *"Mewn Parciau Cenedlaethol neu AHNE, mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol i gynigion datblygu mawr. Ni ddylai datblygiadau mawr ddigwydd mewn Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol."* Fodd bynnag, mae angen i LlC ddarparu eglurhad ar y defnydd o'r term 'datblygiad mawr' gan fod y testun esboniadol i baragraff 6.3.11 yn nodi *"Bernir y dylai APA gael penderfynu beth yw 'mawr' gan ddibynnu ar y cyd-destun lleol a'r cais dan sylw…"* Mae hyn yn debygol o achosi dryswch mewn perthynas â diffiniad 'datblygiad mawr' a amlinellir yn Erthygl 2 "Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012" at ddibenion "Rheoli Datblygu".

4.10. Mae Swyddogion wedi holi am y gofyniad ychwanegol ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLl sy'n ymwneud â "… *monitro set o gynefinoedd a rhywogaethau allweddol, ac ymgorffori'r dangosyddion yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a lle bo gofyn, yng Nghynllun ac Adroddiad priodol Adran 6."* (Gweler paragraff drafft 6.2.12) Oni bai am ddyblygu dulliau adrodd, mae AMB yn arf i amlinellu sut caiff amcanion y cynllun eu cyflawni bob blwyddyn. Nid yw rheoli rhywogaethau a warchodir neu safleoedd cadwraeth natur statudol dynodedig yn swyddogaeth gynllunio, ond mae'n rhaid cymryd yr amcanion cadwraeth i ystyriaeth.

4.11. Er bod y Swyddogion ar y cyfan yn cefnogi'r newidiadau polisi arfaethedig, mae pryderon ynghylch disgwyliadau (arbenigedd, gwybodaeth, safonau ac ati) a goblygiadau o ran adnoddau (monitro, staff, amser ac ati) o ystyried y gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael i'r Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw cyflwyno'r ddogfen i LlC yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol. Fodd bynnag, bydd y newidiadau arfaethedig i PCC yn cefnogi Blaenoriaeth Gorfforaethol y Cyngor "Sir Ddinbych mwy gwyrdd" a'r darpariaethau yn "Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol" (2021).

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau nac effaith amlwg ar wasanaethau eraill yn deillio o gyflwyno'r ffurflen ymateb i ymgynghoriad i LlC. Fodd bynnag, yn ddibynnol ar y manylion mewn perthynas â gweithredu'r newidiadau arfaethedig i Bennod 11 PCC, mae'n bosibl y bydd angen cefnogaeth ychwanegol i'r Adran Gynllunio o ran gwybodaeth ac arbenigedd yn y meysydd bioamrywiaeth, cadwraeth natur neu orfodi.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes Asesiad o Effaith ar Les wedi cael ei gwblhau gan fod y penderfyniad yn ymwneud â chyflwyno ymateb i ymgynghoriad i LlC. Nid yw'n ymwneud â pholisi, strategaeth, gweithdrefn neu raglen y Cyngor.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Roedd dogfennau ymgynghori, gan gynnwys ffurflen ymateb i ymgynghoriad drafft, yn destun trafodaeth fanwl yng nghyfarfod y Grŵp Cynllunio Strategol ar 26 Ebrill 2023. Roedd aelodau'n gefnogol o'r farn gyffredinol y croesawir y newidiadau polisi yn eu hanfod, ond roedd rhai pryderon mewn perthynas â'r adnoddau sydd ar gael i weithredu a gorfodi'r darpariaethau ychwanegol.

8.2. Cafodd ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad ei lywio hefyd gan farn Swyddogion mewn adrannau gwahanol o'r adran 'Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad".

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Croesawir nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol ynghlwm â chyflwyno'r ymateb hwn. Nodir efallai y bydd pwysau ychwanegol yn y tymor canolig. Bydd yn rhaid cynnwys y rhain yn y broses gyllidebol flynyddol lle bo hynny'n briodol - fodd bynnag, yn sgil y bwlch ariannol mawr mae'r Cyngor yn ei arbed, mae'n debygol y bydd unrhyw bwysau yn ei gwneud yn ofynnol i nodi arbedion mewn meysydd eraill.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau ynghlwm â chyflwyno ymateb i’r ymgynghoriad i LlC.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Atodiad 2 i Adran 13 yng Nghyfansoddiad y Cyngor